CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 15ed HYDREF 2024.
NEUADD GOFFA BODWROG.

PRESENNOL:
Cyng. Ms N Dafydd, J Evans, J E Lewis, D T Roberts. Clerc D Owen.

YMDDIHEURIADAU: Cyng G Jones, R G Parry, Mrs L Roberts, R R Roberts.

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB. Neb

Oherwydd fod y Cadeirydd a`r Is-Gadeirydd yn absennol. Cyng. D T Roberts oed yn cadereiddio.

CAEL COFNODION 17eg MEDI 2024 YN RHAI CYWIR:
Cafwyd yn gywir ar ol newidiad r`oedd angen bwlch a rhif 11 ar ol rhif 10 adroddiad y Cyng Sirol Ms N Dafydd. Cynnig Cyng. Ms N Dafydd, eilio Cyng. J E Lewis.

MATERION YN CODI O`R COFNODION.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. FPL/2024/197. Cais llawn i ddymchwel yr annedd presennol ynghyd a chodi annedd newydd gyda gwaith cystylliedig yn:-
   Cae Mawr, Llandrygarn.
   Dim gwrthwynebiad.
   Cynnig Cyng. J Evans, eilio Cyng. J E Lewis.

PENDERFYNIADAU.

2. Dim.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)

3. Pennaeth Gwasanaeth - Priffyrdd, Gwastraff ac eiddo - Gethin Gilford.
   Par: Adolygiad Cyfyngiadau Cyflymder 20mya a gyflwynwyd Medi 2023. Derbyniwyd lythyr Ken Skates Mehefin 2024 (Cynghorwyr wedi derbyn Copi) yn gofyn am adborth. Cyngor Sir yn awyddus dderbyn sylwadau erbyn 31ain Hydref 2024.
   Cafwyd trafodaeth pellach gyda pawb yn rhoi ei barn. R`oedd y Cyngor wedi ei hymateb o`r blaen, hefo cynlliad yn bresennol pasiwyd i`w adael, gyda`r penderfyniad a wnaethpwyd yn wreiddiol. Mae croeso i unigolion rhoi ei barn i`r Cyngor Sir.

4. Swyddog Polisi - Rhian W Jones.
   Dewch i siarad: Byw ar Ynys Mon. Eisiau gwybod? Beth sydd yn bwysig i ni yn ein cymuned: Gwell dealltwriaeth yr hyn sydd yn bwysig i drigolion yr Ynys. Eu profiad o`r ardal leol. Sut mae trigolion yn teimlo am y Cyngor.
   Ac yn rhynweithio a`r Cyngor.
   Arolwg https://www.ynysmon.llyw.cymru/arolwgpreswylwyr

Cymorth. EinDyfodol@ynysmon.llyw.cymru.
Y Cyngor yn derbyn y wybodaeth ac yn gobeithio am ymateb y Gymuned.

5. Swyddog Polisi - Rhian W Jones.
Cafwyd gwybodaeth gan y Cyngor Sir fod Daniel Jones, Bodafon y Glyn, Llanerchymedd (a oedd wedi pleidio yn euog) Dioddefaint i wartheg, methu a gwardu sgil-gynhyrchion anifeiliad, methu sicrhau dull o adnabod gwartheg a methu chadw cofnodion meddyginiaeth milfeddygol. Troseddiad rhwng Ionawr 2023 ac Ebrill 2024.
Nifer o wartheg a lloeau marw yn cael eu darganfod yn Bodafon y Glyn ynghyd ag eraill oedd yn denau neu`n ddadhydredig y bu`n rhaid eu difa.
Derbyniodd ddedfryd o garchar 12 mis - wedi`i ohirio am 18 mis. Cwblhau 120 awr o waith di-dal ac ymgymryd ag 16 mis o adsefydlu. Dyfarnwyd costau o £8,000 i`r Cyngor Sir hefyd.
Mae yn dangos na fydd math hwn o ymddygiad troseddol yn cael ei oddef.
Y Cyngor yn derbyn y wybodaeth ac yn collfarnu ffasiwn fryntwch.

6. Swyddog Polis - Rhian W Jones.
Dywedodd y Cyngor Sir fod dyfodol disglair i Felin Llynon, Llanddeusant ar ol cael ei hadneyddu. Mae yn agor ar 28ain Medi. Y dafle yn cael ei trosglwyddo i Richard Holt. Cytundeb wedi ei wneud y bydd yr elw a wneud o`r digwyddiadau yn mynd at Apel Rhyd y Llan ar gyfer eisteddfod yr Urdd 2026.
Y Cyngor yn derbyn y wybodaeth a dymuno pob lwc.

7. Swyddog Polisi - Rhian w Jones.
Cyngor Mon wedi ethol Cyng. Gary Pritchard fel arweinydd newydd. Medi 26ain.
Derbyn y wybodaeth. Dymuniadau gorau.

GOHEBIAETH (ARALL)

8. Clercod a Cynghorau Uniongyrchol. Cylchgrawn. Cyng. J E Lewis i`w ddarllen.

9. Elusen William Bold. Cyfrifon Mawrth 2024 wedi ei rhoi i`r Cynghorwyr. Gwybodaeth.

RHODDION.

10. Neuadd Goffa Bodwrog. Dywedodd Cyng. J E Lewis dylai y Cyngor gael Mantolen Ariannol. Cynnig Cyng. J E Lewis eilio Cyng. J Evans i`w ar Raglen y cyfafod nesaf pan fydd Cyngor llawn.

PLWYFOL.

11. Maes Chwarae Bodffordd. Cafwyd ebost gan Mrs Gaynor Jones yn gofyn a oes angen dwy giat. Mae`r un bellaf yn hongian. Cyng. J E Lewis i gael golwg a dweud wrth y Clerc.

12. Mae`r Awdit 2023/24 wedi mynd i`r Awditor Mewnol (Mr A Foulkes). Maen`t yn hwyr eto eleni fel llynedd. Nid ydyw y rhai 2022/23 wedi dod yn ol.

13. Mynwent Gymunedol Bodffordd.
Cafwyd cais am blot claddu gan fenyw, wrth ochor ei brawd.
Cynnig Cyng. J E Lewis, eilio Cyng. Ms N Dafydd i werthu plot.
Gweld beth sydd ei angen bedd i lwch ynteu bedd i gorff ac i faint.
Bydd yn rhaid agor y bedd nawr a gwneud y gwaith iddo, a talu i`r Ymgymerwr am hyn, ac arian am agor bedd i`r Cyngor. Wedyn bydd posib ei farcio allan. Y Clerc i weithredu.

14. Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd Sirol Ms N Dafydd. Diolch iddi.

MATERION ARIANNOL.

15. Cyfrif Rhedegol. £24,543.56. (Torri Bedd N E Jones £400.00)

    Mynwent Gymunedol Bodffordd £9,010.00 rhan o`r uchod))

TALIADAU:

16. Clerc £470.00. Sign Facfory. (Arwyddion Pentrefi) £2,490.00. N Wiiliams 2. (Torri Fynwent) £500.00

    Derbyn cydbwysedd cyfrif, a talu y dyledion i gyd. Cynnig Cyng. J Evans, eilio Cyng. Ms N Dafydd.

D Owen (Clerc)